CYFRES A8

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Storïau Beiblaidd o'r Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 9: 32-43

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 9:42

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 1 Pedr yn helpu Dorcas

Aeth Pedr i lawer o drefi a dinasoedd i sôn wrth bobl am Iesu Grist. Roedd gwraig o'r enw Dorcas yn byw mewn tref o'r enw Jopa ar lan y môr.

C Ysgrifennwch enw'r dref lle'r oedd Dorcas yn byw.

J _ _ _ .

Roedd Dorcas yn caru'r Arglwydd Iesu ac felly roedd hi'n gwneud ei gorau i helpu pobl eraill.

Roedd hi'n rhoi bwyd i bobl dlawd.
Roedd hi'n gwneud dillad i bobl hefyd.

C Pam roedd Dorcas yn helpu pobl eraill?

Am ei bod hi'n _ _ _ _ yr Arglwydd Iesu.

Ond un diwrnod, aeth Dorcas yn sâl a marw. Roedd pawb yn drist iawn.

C **Tanlinellwch y frawddeg sy'n dweud sut roedd pobl yn teimlo pan fu Dorcas farw.**

Roedd pawb yn hapus iawn.
Roedd pawb yn drist iawn.

3

Roedd Pedr yn digwydd bod yn yr ardal ar y pryd. Aeth dau ddyn i'w nôl a dweud, "Tyrd ar unwaith".

C **Beth ddywedodd y dynion wrth Pedr?**

T _ _ _
ar _ _ _ _ _ _ _.

4

Aeth Pedr yn syth i gartref Dorcas. Aeth i mewn, penlinio a gweddïo. Yna, dywedodd Pedr, "Dorcas, cod!"
Cydiodd Pedr yn llaw Dorcas a'i helpu i godi. Roedd hi'n fyw ac yn iach!
Oherwydd y wyrth ryfeddol hon, credodd llawer o bobl yn yr Arglwydd Iesu a dod yn Gristnogion.

Ydych chi wedi credu yn yr Arglwydd Iesu?

Lliwiwch y geiriau a'r llun.

"Daeth llawer i gredu yn yr Arglwydd."

Actau 9:42

6

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 10: 9-23

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 3: 16

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 2 Gweledigaeth Pedr

Ar ôl i Dorcas ddod nôl yn fyw, arhosodd Pedr yn Jopa am dipyn.

Roedd Pedr yn meddwl mai dim ond dros ei bobl ei hunan, yr Iddewon, roedd Iesu wedi marw. Ond tra oedd yn dal yn Jopa, yn aros yng nghartref dyn o'r enw Simon, dysgodd Duw wers bwysig iawn i Pedr.



C Yng nghartref pwy roedd Pedr yn aros? (Tanlinellwch yr ateb cywir)

Cartref Simon Cartref Dorcas Cartref Philip

3

Tua chanol dydd, roedd Pedr yn gweddïo. Siaradodd Duw â Pedr a dweud wrtho bod Duw yn caru pawb a phopeth y mae wedi'u gwneud.

C Beth oedd Pedr yn ei wneud tua chanol dydd?

G __ __ ___ __ __ .

3

Dair gwaith, dywedodd Duw wrth Pedr bod pawb, nid yr Iddewon yn unig, yn bwysig iddo.

Tra oedd Pedr yn meddwl am yr hyn a ddywedodd Duw, daeth tri dyn i'r tŷ. Gofynnodd y dynion i Pedr fynd gyda nhw i gartref swyddog yn y fyddin Rufeinig, dyn o'r enw Cornelius.

C Lliwiwch y rhif sy'n dweud sawl dyn ddaeth i weld Pedr

1 4 6 3

3

Roedd Cornelius yn byw tua 40 milltir i ffwrdd, yng Nghesarea. Ond dyn o wlad arall oedd Cornelius. Doedd Pedr erioed wedi bod yng nghartref rhywun felly o'r blaen. Beth ddylai ei wneud?

Cofiodd Pedr neges Duw iddo – bod pawb o bob gwlad yn bwysig i Dduw.

C Gwnewch y Croesair.



1. Beth oedd enw'r dref lle'r oedd Pedr yn aros?

2. Pwy oedd yn gweddïo tua chanol dydd?

3. I gartref pwy gafodd Pedr wahoddiad?

4. Yng nghartref pwy roedd Pedr yn aros?

Drannoeth, aeth Pedr gyda'r tri dyn i weld Cornelius.

Os ydyn ni wedi credu yn Iesu Grist, mae hynny'n wych! Ond nid dim ond ar ein cyfer ni mae'r Newyddion Da am Iesu – mae ar gyfer pawb yn ein hysgol, yn ein pentref ac yn ein byd!

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ddweud wrth bobl eraill am Iesu.

Lliwiwch y geiriau.

"Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab..."

Ioan 3:16

Enw

DARLLENWCH
Actau 10: 23-48

ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 10:43

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 3 Pedr a Cornelius

Bu Pedr a'r tri dyn yn teithio am ddiwrnod cyfan cyn cyrraedd cartref Cornelius yng Nghesarea. Roedd Cornelius yn disgwyl amdanynt.

Roedd wedi gwahodd ei deulu a'i ffrindiau i gyd i'w gartref i wrando ar Pedr yn siarad.

C Pwy oedd Cornelius wedi'u gwahodd i wrando ar Pedr?

Ei d _ _ _ _

a'i ff _ _ _ _ _ _ _ .

4

Pan ddaeth Pedr i mewn i'r tŷ, penliniodd Cornelius wrth ei draed ond dywedodd Pedr, "Saf ar dy draed. Dyn cyffredin ydw i fel ti!"

C Beth ddywedodd Pedr wrth Cornelius?

"S_ _ ar dy d _ _ _ _ .
D_ _ c _ _ _ _ _ _ _ _ _
y _ _ _ f _ _ t_!"

5

"Duw ddywedodd wrtha i am anfon amdanat ti", meddai Cornelius wrth Pedr. "Mae arnon ni i gyd eisiau clywed beth sydd gan Dduw i'w ddweud."

C **Pwy ddywedodd wrth Cornelius am anfon am Pedr? Tynnwch linell o dan yr ateb cywir.**

Simon Dorcas Duw

2

Yna, dechreuodd Pedr siarad â Cornelius, ei ffrindiau a'i deulu.

C **Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau isod i gael gwybod pwy roedd Pedr yn sôn amdano.**

____ ____ ____ ____

____ ____ ____ ____ ____

5

Tra oedd Pedr yn siarad yn y tŷ, credodd pawb a chafodd eu pechodau eu maddau. Roedd Pedr yn gwybod nawr bod gan bawb yn y byd hawl i glywed y Newyddion Da am yr Arglwydd Iesu!

Lliwiwch eiriau'r Adnod Allweddol.

"Bydd pawb sy'n credu ynddo ef yn derbyn maddeuant pechodau."

Actau 10: 43

4

Enw

DARLLENWCH
Actau 12: 1-19

ADNOD ALLWEDDOL
Iago 5:16

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 4 Pedr yn y carchar (eto)

Doedd y Brenin Herod ddim yn hoffi dilynwyr Iesu Grist. Trefnodd i ladd un o'r apostolion, Iago. Yn fuan wedyn, cafodd Pedr ei arestio a'i roi yn y carchar.

C Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir i'r cwestiynau hyn:-

Pwy nad oedd yn hoffi dilynwyr Iesu Grist?	**Y Brenin Herod**	**Pedr**	**Iago**
Pwy gafodd ei ladd?	**Y Brenin Herod**	**Pedr**	**Iago**
Pwy gafodd ei roi yn y carchar?	**Y Brenin Herod**	**Pedr**	**Iago**

6

Daeth ffrindiau Pedr oedd yn Gristnogion at ei gilydd i weddïo drosto.

Yn y carchar, ar y noson cyn mynd i'r llys, roedd Pedr yn cysgu. Roedd wedi'i gadwyno wrth ddau filwr. Yn sydyn, daeth angel a'i ddeffro!

C Pwy ddaeth a deffro Pedr?

A ___ __ __ .

"Brysia," meddai'r angel, "Cod ar dy draed". Syrthiodd y cadwyni oddi ar arddyrnau Pedr. Cododd a dilyn yr angel trwy ddrws y carchar. Wnaeth neb geisio'u stopio. Wnaeth y milwyr ddim gweiddi, "Stopiwch y dyn yna! Mae'n dianc!" Roedd pawb fel pe baen nhw'n cysgu.

2

Roedd Pedr yn meddwl mai breuddwydio roedd e. Ond wrth i'r angel ei arwain allan o'r carchar ac i mewn i'r ddinas, dechreuodd Pedr sylweddoli mai Duw oedd wedi'i achub!

C **Rhowch ✓ neu ✗ wrth bob brawddeg i ddangos a yw'n gywir ai peidio.**

Roedd Pedr yn effro pan ddaeth yr angel. .....

Ar y dechrau, roedd Pedr yn meddwl mai breuddwyd oedd hi. .....

Sylweddolodd Pedr mai Duw oedd wedi'i achub. .....

6

Aeth Pedr ar unwaith i'r tŷ lle roedd ei ffrindiau, y Cristnogion, yn gweddïo drosto. Pan gurodd ar y drws, daeth morwyn o'r enw Rhoda i'w ateb. Roedd hi mor llawen fel y rhedodd i ddweud wrth y lleill cyn agor y drws! "Mae Pedr wrth y drws!" gwaeddodd. Doedd y Cristnogion ddim yn ei chredu i ddechrau.

C **Beth ddywedodd Rhoda wrth y Cristnogion eraill?**



4

Ond pan agoron nhw'r drws, fe welon nhw mai Pedr oedd yna go iawn! Roedden nhw i gyd yn canmol Duw am ateb eu gweddïau ac achub Pedr.

Mae Iago 5: 16 yn dweud bod

"gweddi daer ... yn beth grymus ac effeithiol"

2

Lliwich y geiriau.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 A8

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120